Eluned Morgan AS/MS
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: WQ87091

Llyr Gruffydd AS
Aelod Rhanbarthol o'r Senedd Gogledd Cymru

Llyr.Gruffydd@senedd.cymru

6 Chwefror 2023

Annwyl Llyr

Roedd y Cwestiwn WQ87091 a gafodd ei gyflwyno gennych i'r Senedd yn ddiweddar yn gofyn am leoliadau'r 500 o welyau cymunedol ychwanegol a sicrhawyd gan Lywodraeth Cymru i gynyddu capasiti gwelyau'r GIG.

Rwy'n ddiolchgar ichi am godi'r mater hwn yn ffurfiol eto gan iddo ddilyn ein trafodaeth ddiweddar yn ystod fy Natganiad Llafar ar bwysau'r gaeaf, a wnaed ar 10 Ionawr. Yn ystod y trafod hwnnw dywedais y byddwn yn rhoi manylion ichi am leoliad y 508 o welyau cymunedol ychwanegol (sef y nifer ar y pryd). Mae'n dda gennyf ddarparu'r wybodaeth honno, gan nodi bod yr wybodaeth ddiweddaraf bellach yn cyfeirio at 595 o welyau sydd wedi eu cadarnhau gan fyrddau iechyd lleol ac awdurdodau lleol, a bod rhagor yn cael eu datblygu ar hyn o bryd.

Rhanbarth Bwrdd Iechyd Lleol	**Cyfanswm y Gwelyau Cymunedol**
Caerdydd a'r Fro	31
Cwm Taf Morgannwg	97
Gwent	96
Gorllewin Morgannwg	159
Gorllewin Cymru	49
Gogledd Cymru	140
Powys	23
Cyfanswm	**595**

Yn gywir,

Eluned Morgan AS/MS
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Bae Caerdydd •
Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.